# DATGANIAD PRIFYSGOL ABERYSTWYTH YNGHYLCH CAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU POBL 2020

**CRYNODEB**

Rydym wedi ymrwymo i wella ein harferion ar gyfer gwrthsefyll caethwasiaeth a masnachu pobl. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein busnes ein hunain nac yn ein cadwyni cyflenwi.

Gwneir y datganiad hwn yn unol â gofynion adran 54(1), Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a hwn yw ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31/07/2020. Yn ogystal, mae'r datganiad hwn yn nodi ymrwymiadau'r Brifysgol mewn perthynas â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**RHAGARWEINIAD GAN GYNGOR Y BRIFYSGOL**

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyriad â hawliau dynol sylfaenol. Mae iddo sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, gweithio gorfodol a gweithio trwy orfodaeth, a masnachu mewn pobl. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y ffurfiau yw bod rhyddid unigolyn yn cael ei amddifadu gan unigolyn arall er mwyn ymelwa arnynt, yn bersonol neu'n fasnachol.

**Gwneir y datganiad hwn yn unol â gofynion adran 54(1), Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a hwn yw ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31/07/2020.**

**STRWYTHUR SEFYDLIADOL**

Yn unol â Siarter Brenhinol Atodol Prifysgol Aberystwyth, y Cyngor yw "prif gorff llywodraethu'r Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am "bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol ac am weithrediad materion ariannol a gweinyddol y Brifysgol yn ogystal ag agweddau eraill, yn unol â'i hamcanion".

Yr Is-Ganghellor, sef prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifo'r sefydliad, sydd â'r cyfrifoldeb am reolaeth weithredol feunyddiol y Brifysgol - ac er y bydd yn cadw arolygaeth strategol gyffredinol, bydd hefyd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau gweithredol i'r swyddogion priodol.

**EIN CADWYNI CYFLENWI**

Mae'r Brifysgol yn gwario dros £44m ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith heblaw am gyflogau. Mae'r Brifysgol yn cyflawni ei hanghenion mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, o ran creu budd nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, a hynny trwy wneud cyn lleied â phosibl o niwed i'r amgylchedd.

Yn fras, mae cadwyni cyflenwi'r Brifysgol yn dod o dan bump o brif gategorïau, sef:

• Nwyddau Traul a Chyfarpar Labordai
• Adnoddau Llyfrgell
• Gwasanaeth Proffesiynol

• Cyfarpar a Gwasanaethau TGCh
• Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith yr Ystadau

Y prif gategorïau lle mae peryglon perthnasol yw nwyddau swyddfa, nwyddau traul labordai, cyfarpar TGCh, a rhai o wasanaethau'r ystadau, er enghraifft gwasanaethau glanhau a ddaw o ffynonellau allanol o bryd i'w gilydd.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Mae'r Consortiwm yn gweithio'n effeithlon ochr yn ochr â'r consortia pwrcasu cyfatebol i brifysgolion Prydain a grwpiau cenedlaethol, ac mae ganddynt berthynas flaengar a llwyddiannus rhyngddynt a'i gilydd.

Mae'r rhaglen cyd-gontractio yn darparu portffolio cydweithrediadol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel a restrir uchod.

Mae mwyfwy o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i God Sylfaenol y Fenter Masnachu Foesegol (Ethical Trading Initiative) ac mae'r prifysgolion sy'n rhan o Gonsortia Pwrcasu Prifysgolion Prydain yn gweithio i sicrhau bod y cyflenwyr sy'n weddill yn y categorïau hyn yn ymuno â hwy. Seiliwyd Cod Sylfaen yr ETI ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god arferion llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n mynnu:

1. Bod cyflogaeth yn rhywbeth i'w ddewis yn rhydd;
2. Y dylid parchu rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i gydfargeinio;
3. Bod amodau gwaith yn ddiogel a glanwaith;
4. Na ddylid defnyddio plant i wneud gwaith;
5. Y dylid talu cyflog byw;
6. Nad yw oriau gwaith yn ormodol;
7. Na ddylid gwahaniaethu ar unrhyw sail;
8. Y dylid darparu gwaith rheolaidd; a
9. Na chaniateir triniaeth lem nac annynol.

**Cyfarpar TGCh**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o nifer o gytundebau pwrcasu cydweithrediadol yng nghyswllt cyfarpar TGCh.

Trwy'r cytundebau pwrcasu cydweithrediadol hyn, mae'r Brifysgol yn cefnogi egwyddorion Electronics Watch, sef mudiad monitro annibynnol sy'n gweithio i ennill parch i hawliau gweithwyr yn y diwydiant electronig byd-eang, trwy gyfrwng pwrcasu cyhoeddus cymdeithasol-gyfrifol yn Ewrop. Rydym yn cydweithio â'n cyflenwyr contract i weithredu ac ymrwymo i drefniadau newydd o fonitro os yw codau ymddygiad corfforaethol a pholisïau ac arferion archwilio cymdeithasol yn methu o ran tryloywder ac effeithlonrwydd.

**EIN POLISÏAU YNGLŶN Â CHAETHWASIAETH MODERN A MASNACHU POBL**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na cheir unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes.

Yng ngoleuni'r rhwymedigaeth i adrodd ar fesurau i sicrhau bod pob rhan o'n busnes a'n cadwyn gyflenwi’n rhydd o gaethwasiaeth, byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r gweithle er mwyn asesu pa mor effeithlon y maent o ran canfod a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Bydd polisïau sy'n cael eu datblygu gan y llywodraeth ynghylch cadwyni cyflenwi moesegol hefyd yn cael eu hystyried gan y Brifysgol.

Bydd ein polisïau a'n gweithdrefnau cysylltiedig â'r gweithle yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesegol a chyda gonestrwydd ym mhob un o'n cysylltiadau busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithlon er mwyn sicrhau na cheir caethwasiaeth na masnachu pobl yn unrhyw ran o'n cadwyni cyflenwi.

**PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

Rydym wedi gweithredu cynlluniau i adnabod a lliniaru a sefydlu systemau a fydd yn:

- Adnabod ac asesu meysydd le mae risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi
- Lleihau'r perygl bod caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.
- Cadw golwg ar feysydd lle mae risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Diogelu unigolion sy'n chwythu'r chwiban

Mae'r Brifysgol wedi nodi'r prif gategorïau risg ym meysydd ein gwariant ac wedi rhoi prosesau newydd yn eu lle i sicrhau y bydd yr holl weithredu newydd yng nghyswllt caffael yn mynnu bod darpar gyflenwyr yn cadarnhau eu bod yn gweithredu'n unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Modern (2015).

Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i weithredu'r cyflog byw gwirfoddol yn llwyr a chael ei hachredu'n gyflogwr Cyflog Byw yn 2018.

**HYFFORDDIANT**

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drwyadl o beryglon caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a'n sefydliad, rydym ni wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith ein staff ynglŷn ag achosion o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a rhannu gwybodaeth i bob rhan o'r Brifysgol ynglŷn â chyrsiau hyfforddiant addas i'r staff. Mae'r staff sy'n gweithio ym maes caffael wedi cwblhau hyfforddiant 'Ethical Procurement and Supply’ ar-lein.

**Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**

Yn 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, i sicrhau bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cymryd camau i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol ac i sicrhau bod gweithwyr ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi'n cael eu trin yn deg. Mae'r Brifysgol wedi llofnodi'r Cod Ymarfer hwn, gyda'r bwriad o gydymffurfio â 12 ymrwymiad a gynlluniwyd i ddileu caethwasiaeth fodern a chefnogi arferion gwaith moesegol.

Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i roi sylw i'r 12 ymrwymiad sydd yn y Cod Ymarfer.

**PERFFORMIAD YN ERBYN EIN NODAU AR GYFER 2019-20**

Yn ystod 2019-20, gwnaethom gynnydd yn erbyn y nodau datganedig; mae'r adran hon yn tynnu sylw at y llwyddiannau hyn.

- *Bydd y Brifysgol yn creu mwy o asesiadau risg sy'n ymwneud â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn y sector cydweithredol presennol ar gyfer cyflenwyr allweddol. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio cronfeydd data meddalwedd allanol sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru, er mwyn ymchwilio i fanylion Caethwasiaeth Fodern ein cyflenwyr ar y lefel 'leol'.*

Cwblhawyd. Tua diwedd 2019, llwyddodd y Brifysgol i sicrhau gwasanaethau myfyriwr israddedig, ar drydedd flwyddyn ei gwrs Busnes a Rheolaeth, ar leoliad gwaith byr drwy raglen 'Go Wales' a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Aeth i'r afael â gwaith ymchwilio data ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae gennym ni hefyd ddata sylfaenol sy'n cadarnhau manylion datganiad caethwasiaeth fodern pob un o'n cyflenwyr drwy'r gronfa ddata feddalwedd allanol, y gallwn ei allosod mewn unrhyw gyfnod adrodd. Yn ogystal â hyn mae'r gwaith yn sicrhau profiad gwaith gwerthfawr i fyfyriwr ar ei flwyddyn olaf ac yn rhoi goleui pellach gwerthfawr ar ddeddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern, er mwyn gwella ei addysg.

- *Bydd y Brifysgol yn adeiladu ar ein hasesiad o gyflenwyr tramor er mwyn anelu at y gydymffurfiaeth orau ag agweddau cysylltiedig ar gynllun gweithredu ein Cod Ymarfer.*

Ar y gweill. Gwnaed asesiad 'ciplun' yn ystod 2019/20 o'n 50 cyflenwr gorau o ran risg cyllidol. Roedd hefyd yn ffynhonnell ddata i sefydlu a oes gan endid tramor gysylltiadau ag ystyriaethau'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Mae'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn gyfystyr ag oddeutu 50% o'r proffil gwaith cysylltiedig â'r dasg hon, a nodir y gweddill isod fel targedau ar gyfer 2020/21. Mae rhai o wledydd y G20 wedi pasio deddfwriaeth y bwriedir iddi leihau effaith caethwasiaeth fodern ar gadwyni cyflenwi; yr un amcan sydd i'n gwaith ni yma yn y Brifysgol, gwella ein dealltwriaeth o'n marchnad gyflenwi.

- *Bydd y Brifysgol yn cynnal asesiad cynhwysfawr o'n Cod Ymarfer er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ym mhob maes allweddol.*

Cynnydd da. Mae'r gwaith ar ein cod ymddygiad wedi parhau a dyma rai o ddatblygiadau eraill y flwyddyn:

- Mae canllawiau hyfforddi'r sector ar gaethwasiaeth fodern ac ystyriaethau cysylltiedig bellach ar gael i weithwyr y Brifysgol. Mae'r staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio wedi dilyn hyfforddiant mewn Arferion Cyflogaeth a Recriwtio Moesegol. Fe'i gwnaed yn ofynnol i staff sydd â chyfrifoldebau sylweddol dros gaffael ddilyn hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern priodol i'r maes Caffael.

- Monitro'r prynwyr datganoledig a'r tîm canolog sy'n ymrwymo i God Ymarfer cysylltiedig â Chaethwasiaeth Fodern. Mae hynny bellach yn mynd rhagddo.

**EIN NODAU AR GYFER 2020/21**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddeall ei chadwyni cyflenwi'n well ac i weithio tuag at gynyddu tryloywder a chymryd mwy o gyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n gweithio o fewn y cadwyni hynny. I gyrraedd y nod hwnnw, byddwn:

- Yn gwneud mwy o waith ym maes cyflenwi tramor er mwyn categoreiddio gwiriadau cydymffurfio ar gyfer cyflenwyr y tu allan i Brydain yn erbyn deddfwriaeth Caethwasiaeth

Fodern, yn gyson â'r awdurdodaethau cyfreithiol cymwys. Bydd y gwaith hwn yn ehangu ac yn datblygu'r mewnbwn sy’n bodoli. Trwy weithio â'n rheolwyr fframwaith yn y sector, bydd y gwaith yn categoreiddio cyflenwyr yn ôl hanes cysondeb masnachu â'r Brifysgol yn gymesur â’r lefel y mae’r ddeddfwriaeth yn gymwys i'r cyflenwyr hynny, yn gyson â'u statws G20 a'u safle cyfreithiol cyfatebol.

- Datblygu'r gofyniad i bob aelod staff sydd â chyfrifoldeb dros waith recriwtio a chaffael mewn gwahanol rannau o'r sefydliad ddiweddaru eu hyfforddiant.

- Datblygu cofrestr gontractau/system reoli i gynorthwyo'r gwaith o gadw cofnodion. Cofnodi arferion cyflogaeth ein cyflenwyr uchel eu risg a gosod anogwr ar y system i sicrhau ein bod yn cynnal adolygiadau cyfnodol.  Ein bwriad yw cynyddu i’r eithaf y defnydd a wneir o fodiwl rheoli contractau'r system e-dendro a ariennir gan Lywodraeth Cymru pan fo modd er mwyn cyflawni'r gwaith hwn.



Cadeirydd y Cyngor
Prifysgol Aberystwyth
Dyddiad: 26/11/2020